Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** | | **INVESTMENTS AND CONTRACTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,**<br>**5 TACHWEDD 2019 at 10.30 o'r gloch yb** | | **TUESDAY,**<br>**5 NOVEMBER, 2019 at 10.30 a.m.** |
| **SIAMBR Y CYNGOR,**<br>**SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER,**<br>**COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs Mairwen Hughes**<br>**01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd a Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn/Chair and Vice-Chair of the Isle of Anglesey Charitable Trust**

**K P Hughes**
**T Ll Hughes MBE**
**Aled M Jones**
**Gwilym O Jones**
**R Ll Jones**
**Alun Mummery**
**Dafydd Roberts**
**Nicola Roberts**
**Dafydd R Thomas**
**Robin Williams**

# R H A G L E N

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 6 Tachwedd, 2018.
*(Cofnodion wedi eu mabwysiadu gan yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2018).*

5 **RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwyno adroddiad gan HSBC Global Asset Management (UK) Limited.
**(ADRODDIAD I'W DDOSBARTHU YN Y CYFARFOD)**

6 **DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR** (Tudalennau 3 - 4)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd.

# PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | K P Hughes, T Ll Hughes MBE, G O Jones, Alun W Mummery, Dafydd Roberts, Nicola Roberts a Robin Williams.<br><br>R O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |
| **WRTH LAW:** | Trysorydd,<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM)**<br><br>Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli Trysorlys (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Carli Watson a Mr Tommy Doan – HSBC Global Management (UK) Limited |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd Mr T Ll Hughes MBE ei ethol yn Gadeirydd.

**2 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cafodd Mr Dafydd Roberts ei ethol yn Is-gadeirydd.

**3 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Dim

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2017.

*(Cadarnhawyd y cofnodion gan gyfarfod Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2017.)*

**5 RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Cyflwynwyd – adroddiad HSBC Global Management (UK) Limited hyd at ddiwedd Hydref 2018.

Rhoddodd cynrychiolwyr HSBC drosolwg manwl o bortffolio buddsoddi'r Ymddiriedolaeth Elusennol o fewn cyfrif Twf ac Incwm Gwasanaeth Elusennau'r DU. Roedd gwerth y portffolio yn £21,381,961.84 fel ar 30 Hydref, 2018. Hysbyswyd y Pwyllgor am y datblygiadau allweddol yn y farchnad a nodwyd bod dechrau cryf i 2018 wedi'i amharu arno wrth i'r farchnad ddychwelyd i fod yn gyfnewidiol gyda phryderon yn dychwelyd am arenillion bondiau, lefelau uwch o chwyddiant a chwyddiant cyflymach yn yr Unol Daleithiau. Cafodd y dirywiad ei adfer yn ail hanner mis Chwefror wrth i'r buddsoddwyr ganolbwyntio ar gefndir o dwf economaidd byd-eang ac enillion corfforaethol cadarnhaol. Cafodd gwendid pellach yn y farchnad ei nodi ym mis Mawrth gan bryderon dros gryfder yr economi byd-eang a chynnydd mewn amddiffyn masnach, ynghyd â phryderon penodol dros fwy o reoliadau yn y sector technoleg. Bu marchnadoedd sefydlogi ym mis Ebrill wrth i densiynau masnach byd-eang a phryderon am chwyddiant yn yr Unol Daleithiau leihau. Roedd y

bunt i lawr ym mis Ebrill yn erbyn cryfder eang y ddoler UD. Bu tensiynau masnach yr Unol Daleithiau â Tsieina gysgodi'r marchnadoedd ecwiti ym mis Mehefin gyda bondiau ac ecwitïau newydd yn cael eu pwyso i lawr gan ddata gweithgaredd Tsieineaidd gwannach na'r disgwyl a chynnydd Fed mewn cyfraddau llog o 0.25%. Nodwyd ymhellach bod marchnadoedd ariannol yn sensitif i ddatblygiadau gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD diolch i gynrychiolwyr y Tîm Elusennau HSBC am fynychu'r cyfarfod ac i dderbyn yr adroddiad.**

## 6 DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MAWR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â dyrannu cyllid ar gyfer grantiau mawr yn 2019.

Adroddodd y Trysorydd, Yn ystod y dair mlynedd ddiwethaf, rhoddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn swm o arian o'r neilltu er mwyn cyllido ceisiadau llwyddiannus am grantiau mwy (dros £8,000). Dyrannwyd £200,000 yn 2016 a £350,000 yn 2017 a 2018. Yn achos 2018, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac, o ganlyniad, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 34 o geisiadau gan sefydliadau yn gofyn am gymorth – gyda'r ceisiadau i gyd yn dod i gyfanswm o £1.48m. Wedi i'r Pwyllgor Adfywio asesu ac ystyried y ceisiadau, bu 14 ohonynt yn llwyddiannus a chafodd y swm llawn o £350,000 ei ddyrannu mewn grantiau.

Ym 2017, ystyriodd y Pwyllgor hwn 3 opsiwn i benderfynu ar y swm i'w ddyrannu:-

- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (heb gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i mewn i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Yn seiliedig ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio (gan gynnwys gwerth yr arian parod a drosglwyddwyd i'r portffolio yn ystod y flwyddyn);
- Cadw'r swm a ddyrannwyd fel y flwyddyn flaenorol h.y. £350,000.

**Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD argymell 'r Ymddiriedolaeth Elusennol llawn bod swm o £350,000 yn cael ei ddyrannu fel yn y flwyddyn flaenorol tuag at grantiau mwy.**

**Mr T Ll Hughes MBE**
**Cadeirydd**

| CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** |
| **DYDDIAD :** | **5 TACHWEDD 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | **DYRANNU CYLLID AR GYFER GRANTIAU MWY** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **I gytuno ar swm i ddyrannu i'r grantiau mawr am 2020** |
| **ADRODDIAD GAN :** | **TRYSORYDD DROS DRO –<br>CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDIAD :** | **Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan reolwyr buddsoddi'r Ymddiriedolaeth, i bennu'r swm a ddyrennir i grantiau mwy yn 2020** |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Dros y bedair mlynedd ddiwethaf, roedd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi rhoi swm o arian o'r neilltu i gyllido ceisiadau llwyddianus am grantiau mwy (dros £8,000). Yn 2016, cafodd £200,000 ei neilltuo ac, yn 2017, 2018 a 2019, £350,000 ei neilltuo.

**1.2** Ar gyfer 2019, hysbysebwyd y broses ymgeisio yn eang ac arweiniodd hyn at yr Ymddiriedolaeth yn derbyn 29 cais gan sefydliadau yn gofyn am gymorth, gyda chyfanswm o £1.17m yn cael ei ofyn am. Ar ôl asesiad ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Adfywio a chymeradwyaeth gan bwyllgor llawn yr Ymddiriedolaeth, roedd 12 cais yn llwyddiannus, gyda'r £350,000 llawn yn cael ei ddyfarnu fel grantiau. Dyfarnwyd grantiau i amrywiaeth o sefydliadau a phrosiectau, gan gynnwys grwpiau cymunedol, clybiau chwaraeon, grwpiau sy'n cefnogi'r henoed yn y gymuned, gwyliau celf a cherddoriaeth, meithrinfa plant a phrosiect i gefnogi pobl o gefndiroedd difreintiedig.

**1.3** Er mai penderfyniad i'r Ymddiriedolaeth lawn yw hi i benderfynu a'i ydynt eisiau dyrannu cyllid i grantiau mwy yn 2020, y Pwyllgor yma fydd yn penderfynu ar y swm i'w ddyrannu.

## 2. PENDERFYNU'R SWM SYDD AR GAEL AR GYFER GRANTIAU CYFALAF MAWR AR GYFER 2020

**2.1** Mae'r grantiau mawr bob tro wedi cael eu cyllido gan unrhyw gynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi. Defnyddiwyd unrhyw refeniw a gynhyrchwyd gan fuddsoddiadau ar ffurf llog neu ddifidendau i gyllido'r grantiau llai, y grant i Oriel Môn a chostau rhedeg cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

**2.2** Dangosir yn Nhabl 1 isod y gymhariaeth yng ngwerth cyfalaf y portffolio rhwng 30 Medi 2018 a 30 Medi 2019.

**Tabl 1**

**Symudiad yng Ngwerth Cyfalaf y Portffolio Buddsoddi rhwng 30 Medi 2018 a 30 Medi 2019**

| | **£** |
|---|---|
| Gwerth y Portffolio Buddsoddi ar 30 Medi 2019 | 22,426,325 |
| **Llai** Gwerth y Portffolio Buddsoddi ar 30 Medi 2018 | 22,945,228 |
| **Symudiad yng Ngwerth y Portffolio Buddsoddi** | **(518,903)** |
| **Ychwanegu** Arian parod tynwyd allan o'r Gronfa Buddsoddi | 1,515,776 |
| **Llai** Incwm credydwyd i'r Gronfa Buddsoddi | (657,077) |
| **Cynnydd yng Ngwerth Cyfalaf y Portffolio Buddsoddi** | **339,796** |

**2.3** Rhaid i'r Pwyllgor, felly, gymryd i ystyriaeth y cyngor derbyniwyd gan y Rheolwr Buddsoddi cyn penderfynu beth fydd y swm i'w ddyrannu, gan sicrhau fod y gronfa yn parhau yn ddigon mawr i alluogi'r Ymddiriedolaeth, petai'n penderfynu gwneud hynny, i helpu cyn gymaint o fudiadau â sy'n bosib heb peryglu lefelau incwm y dyfodol y gellid ei greu gan y gronfa. Bydd y Rheolwr Buddsoddi yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor yma i ddarparu'r cyngor priodol.

**2.4** Yn Nhachwedd 2017, penderfynodd y Pwyllgor sefydlu gwerth y cyllido ar 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi. Yn Nhachwedd 2018, adroddodd y Rheolwr Buddsoddi gynnydd yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi a phenderfynodd y Pwyllgor i gadw gwerth y cyllido £350,000.

**2.5** Byddai dyrannu 20% o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf ond yn darparu cronfa o £70,000, ac efallai ni fydd hyn yn ddigonol i gwrdd â'r gofyn, tra byddai dyrannu £350,000, fel yn y gorffennol, yn arwain at ostyngiad yng ngwerth cyfalaf y portffolio buddsoddi ac efallai ni fyddai'r Ymddiriedolwyr eisiau gweld hyn yn digwydd.

**2.6** Dylid nodi fod y portffolio buddsoddi bellach wedi ei throsglwyddo drosodd i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol, Sefydliad Elusennol Ynys Môn. Nid yw'r Ymddiriedolaeth newydd yma wedi cyfarfod eto, ac nid yw wedi sefydlu sut y bwriedir defnyddio'r cyllid i'r dyfodol. Efallai bydd yr Ymddiriedolaeth newydd yn penderfynu mai nid y ffordd orau o gyflawni amcanion strategol y Gymdeithas yw gofyn am geisiadau a dyfarnu grantiau mawr yn flynyddol.

## 3. GWEITHRED ANGENRHEIDIOL

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cyngor y Trysorydd a'r Rheolwr Buddsoddi ac i benderfynu:-

1. A ydynt yn gohirio gwneud penderfyniad tan wneir penderfyniad gan Sefydliad Elusennol Ynys Môn ynglŷn ac yw'n dymuno parhau i ddyfarnu grantiau mawr neu beidio.

2. Os nad yw'r penderfyniad yn cael ei ohirio, i argymell ffigwr cyllido i Sefydliad Elusennol Ynys Môn. Gall y ffigwr cyllido amrywio o £70,000 (20% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf) i £340,000 (100% o'r cynnydd yn y gwerth cyfalaf).

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **30 HYDREF 2019**